

Liposuction ar gyfer lymffoedema cronig

23 Awst 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer lymffoedema cronig ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Croniad o hylif a meinwe braster gormodol yn y coesau a'r breichiau o ganlyniad i niwed i'r system lymffatig yw lymffoedema cronig. Gall achosi anesmwythder, poen, symudedd cyfyng a phroblemau gydag ymddangosiad. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys defnyddio sugnedd i gael gwared ar yr hylif a'r meinwe braster drwy doriadau bach yn y croen. Ar ôl hynny, rhaid gwisgo dillad cywasgu dros yr hirdymor, a gellir ond eu tynnu o bryd i'w gilydd am gyfnodau byr.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan [ganllawiau triniaethau ymyriadol](#) NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthyich am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-2638-1